Academic & Student Support Services
Academic Registrar
Simon Wright LLB
Gwasanaethau Academaidd a Chefnogi Myfyrwyr
Cofrestrydd Academaidd
Simon Wright LLB

Anfonwyd dros ebost **6 Ebrill 2016**

Annwyl Mr Charles

Ynghylch: Ymateb Sefydliad: Adroddiad Blynyddol Arholwyr Allanol 2014 – 2015

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ôl derbyn eich Adroddiad Arholwr Allanol ar gyfer Cymhwyster Cenedlaethol Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion.

Yn unol â'n harfer safonol, anfonir copi o'r Adroddiad at yr Ysgol dan sylw, a fydd yn defnyddio'r cynnwys i helpu i lywio ei broses Adolygiad a Gwelliant Blynyddol. Mae'r Brifysgol yn falch o'ch sylwadau cadarnhaol, gan gynnwys:

1. **eich nodiadau cadarnhaol ynghylch strwythur y rhaglen, safonau academaidd a'r broses asesu;**
2. **canmoliaeth arbennig am eich sefydliad o waith ar gyfer safoni ac am yr adborth a roddir i fyfyrwyr.**

Ymddengys nad yw eich adroddiad yn codi unrhyw faterion penodol y mae angen ymateb iddynt yn fwy manwl. Yn unol â hynny, nid yw'r Ysgol wedi gofyn am gael ymateb yn ffurfiol i'r Adroddiad.

Rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn foddhaol, a diolch i chi am eich gwasanaeth fel Arholwr Allanol.

Er mwyn bodloni disgwyliadau Côd Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), bydd Adroddiad Blynyddol yr Arholwr Allanol a'r Ymateb hwn gan y Sefydliad yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe'r Gofrestrfa, a byddant ar gael i'r cyhoedd.

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 ODE
Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.cardiff.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 ODE
Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.caerdydd.ac.uk

Drwy ddarparu Ymateb Sefydliad ffurfiol, nid yw'n fwriad gan y Brifysgol orfodi cyfathrebu uniongyrchol rhwng Ysgolion a'u Harholwyr Allanol. Caiff Ysgolion eu hannog i drafod unrhyw faterion manwl sy'n codi yn eu Hadroddiadau gyda'u Harholwyr Allanol, yn ogystal ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar ansawdd a safonau dyfarniadau, gan gynnwys newidiadau posibl i raglenni.

Rydym yn hynod ddiolchgar i chi am eich sylwadau ac am eich cefnogaeth yn y mater hwn.

Yn gywir,

Mr Simon Wright
Cofrestrydd Academaidd

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 ODE
Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.cardiff.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 ODE
Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.caerdydd.ac.uk